
CYDBWYLLGOR GwE

Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd yn Parc Eirias, Bae Colwyn

ar 23 Mai 2018 o 10:30 hyd at 11:40.

Yn bresennol:

Y Cyngorwyr: Gareth Thomas – Cadeirydd (Cyngor Gwynedd), Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Garffild Lewis (Cyngor Bwrdeistref Conwy), Huw Hildtich-Roberts (Cyngor Sir Ddinbych), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint).

Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais: Haf Williams (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd), Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig).

Swyddogion heb bleidlais: Dr Lowri Brown (Cyngor Conwy), Julian Molan (Cyngor Sir Ddinbych), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), Ian Roberts (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol: Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Iwan G. Evans (Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol yr Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd), Dr Gwynne Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Gareth Williams (Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE), Bethan E. Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad GwE), Hefin Owen (Rheolwr Uned Cyllid yr Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd), a Sioned Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau yr Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd).

1. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Gareth Thomas yn Gadeirydd y pwyllgor hwn am 2018/19.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Phil Wynn yn Is-gadeirydd y pwyllgor hwn am 2018/19.

3. CYHOEDDIADAU

- Croesawyd Haf Williams i'r Cydbwyllgor fel Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd.
- Llongyfarchwyd Susan Owen Jones ar ei merch newydd-anedig.
- Llongyfarchwyd y Cadeirydd ar ei wyrion newydd-anedig.
- Llongyfarchwyd Cyngor Sir Ddinbych ar ganlyniad arolwg Estyn yn ddiweddar - barnodd yr adroddiad fod arweinyddiaeth a rheolaeth yn ardderchog a chanlyniad ac ansawdd addysg un da.

4. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Phil Wynn - Is Gadeirydd (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Peter Agnew (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd), Arwyn Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Steve Vincent (Llywodraeth Cymru), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes GwE), Rhys Howard Hughes (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE).

5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

6. GWOBRAU ADDYSG BROFFESIYNOL CYMRU

Adroddodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE bod seremoni gwobrwyo y Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru wedi'i gynnal yng Nghaerdydd ar 13 Mai 2018. Nodwyd bod y gwobrau yn dathlu ymrwymiad a gwaith caled athrawon ar draws Cymru. Amlygwyd bod nifer o athrawon/staff o awdurdodau'r Gogledd wedi cael eu henwebu am wobwr, sydd yn dystiolaeth o gryfder y maes addysg yng Ngogledd Cymru.

Cyflwynwyd tair a ddaeth yn fuddugol yn eu categorïau unigol i'r cydbwyllgor, sef:

- Athro Newydd Eithriadol – Helen Jones, Ysgol Uwchradd y Fflint.
- Athro'r Flwyddyn – Lorraine Dalton, Ysgol Gynradd Esgob Morgan, Llanelwy.
- Hybu Cydweithio i Wella Cyfleodd Dysgu – Ruth Thackray, GwE.

Cafodd yr enillwyr gyfle i siarad am eu gwaith a mynegwyd eu bod yn hynod o ddiolchgar a balch am eu henwebiad.

Yn ogystal, nodwyd fod Gwenan Ellis Jones, Cyngor Gwynedd wedi ennill y wobwr 'Defnyddio'r Gymraeg Mewn Ffordd sy'n Ysbrydoli'.

Mewn ymateb, llongyfarchodd y cydbwyllgor yr enillwyr a'r sawl a gafodd eu henwebu am wobwr, a chymeradwywyd eu gwaith caled.

7. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion bryd.

8. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 21 Chwefror 2018, fel rhai cywir.

9. FFRAMWAITH ATEBOLRWYDD NEWYDD

Rhodddwyd cyflwyniad i'r cydbwyllgor gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol GwE ar y fframwaith atebolrwydd newydd sydd yn rhan o daith diwygio Llywodraeth Cymru. Nodwyd bod yr elfen Fframwaith Atebolrwydd yn rhan fechan o'r daith, a bod cefnogi ysgolion i gwrdd ag agenda'r daith yn mynd i fod yn her enfawr iawn.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, ymatebwyd i gyfres o gwestiynau/sylwadau gan aelodau'r cydbwyllgor mewn perthynas â:

- Pwysigrwyd i holl aelodau (yn arbennig aelodau craffu) gael dealltwriaeth o maint y pwysau gwaith sydd yn eu hwynebu yn sgil y newidiadau sydd gerbron y maes addysg.
- Awgrym i GwE rhoi cyflwyniad i aelodau cabinet ac aelodau craffu y chwe awdurdod lleol.
- Pryder bod y broses o reoli adroddiadau data ddim yn eglur - mae angen gwell dealltwriaeth ranbarthol.

- Beth yw'r camau nesaf a sut mae cyfathrebu hyn?

PENDERFYNWYD

- **GwE i roi cyflwyniad ar y Fframwaith Atebolrwydd Newydd i'r chwe awdurdod lleol.**
- **Rheolwr Gyfarwyddwr GwE i anfon llythyr i Lywodraeth Cymru ar ran y cydbwyllgor i ofyn am eglurder o 'atebolrwydd' er mwyn sicrhau cysondeb.**

10. ADRODDIAD BLYNYDDOL GWE 2017-18

Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr Cyfarwyddwr GwE ar berfformiad y Gwasanaeth o ran cyflawni Swyddogaethau'r Gwasanaeth a'r Nodau Allweddol. Tywyswyd yr aelodau drwy'r adroddiad gan nodi ei fod yn grynodeb o'r adroddiad blynyddol ac yn anelu i gyfleu'r negeseuon lefel uchel.

PENDERFYNWYD: Nodi a derbyn yr adroddiad.

11. CYNLLUN BUSNES LEFEL 1

Cyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE y Cynllun Busnes Lefel 1. Gofynnwyd am farn y cydbwyllgor am y math o naratif sydd yn fwyaf defnyddiol wrth adrodd ar berfformiad - oes angen ffocysu ar beth sydd angen ei wella neu ganolbwyntio ar lwyddiannau?

Mewn ymateb, croesawyd y cydbwyllgor y fformat personol gan nodi bod angen cydbwysedd o'r llwyddiannau yn ogystal â beth sydd angen ei wella er mwyn deall y darlun cyflawn.

PENDERFYNWYD: Nodi a derbyn yr adroddiad.

12. Y GYMRAEG MEWN ADDYSG

Cyflwynwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol GwE. Cynigwyd adolygu'r strwythur rhanbarthol ar gyfer gweithredu'n fwy strategol i gefnogi'r Gymraeg o fewn y maes addysg, ac i sefydlu Bwrdd Strategol y Gymraeg i arwain ar y gwaith. Gofynnwyd i'r cydbwyllgor gymeradwyo'r cynigion a amlinellir yn yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, ymatebwyd i gyfres o gwestiynau/sylwadau gan aelodau'r cydbwyllgor mewn perthynas â:

- Croesawu'r syniad o weithredu yn fwy strategol.
- Pwy fydd yn rhan o aelodaeth y Bwrdd Strategol y Gymraeg? Mae'n bwysig i'r aelodaeth gynrychioli amrywiaeth y siaradwyr Cymraeg ar draws y rhanbarth.
- Pwysigrwydd rhoi llais cryf i ddysgwyr yn y datblygiadau.

PENDERFYNWYD: Derbyn yr argymhellion.

13. CYFRIFON TERFYNOL GwE 2017-18

Cyflwynwyd adroddiad cryno gan Reolwr yr Uned Cyllid yr Awdurdod Lleol. Tywyswyd yr aelodau drwy'r adroddiad – nid oedd unrhyw sylw pellach gan aelodau pwyllgor ar gynnwys yr adroddiad.

PENDERFYNWYD: Derbyn yr adroddiad.

CADEIRYDD